BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

Dathlu 25 mlynedd
Celebrating 25 years
o Dechrau Da
of Bookstart

Dechrau Da
Bookstart
BookTrust Cymru

Stori

gan Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru



Mae stori yn gyfaill sydd wastad ar gael,
yn ddoniol, yn ddifyr, yn driw ac yn hael.

Mae stori yn gysur wrth swatio ar lin,
does dim cystal moddion pan ddaw salwch blin.

Mae'n amser am stori! Un, dau, tri!
Mae'n amser arbennig i ti ac i mi.

Yn dawel, cyn cysgu, tra'n swatio yn glyd,
wrth wrando ar stori cei weld yr holl fyd.

Os bydd glaw yn disgyn a'r awyr yn ddu,
daw stori â heulwen i ffenest dy dŷ.

Mae'n amser am stori! Un, dau, tri!
Mae'n amser arbennig i ti ac i mi.

Lle bynnag yr wyt ti, ar fws neu ar drên,
does dim cystal cwmni â stori fach glên.

Mae stori'n fwy gwerthfawr nac arian nac aur;
ar ôl clywed stori cei gadw bob gair.

Mae'n amser am stori! Un, dau, tri!
Mae'n amser arbennig i ti ac i mi.

BARDD PLANT CYMRU

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

S4C

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Urdd

Rhif elusen / Charity no : 313343